

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Dathliad Cymru gyfan BookTrust Cymru o ganeuon
a rhigymau ydy Amser Rhigwm Mawr Cymru.

Roced Roc a Rôl (Am yn ôl)

(10, 9, 8, 7, 6, 5, 4, 3, 2, 1)

(Mae'r amser wedi dod i gyfri am yn ôl. Roced yn tanio. Roced
yn tanio.)

Deffro un bore, isio gadael y byd
Hedfan i ffwrdd, dweud hwyl fawr i chi gyd.
Dwi isio cerdded ar y lleuad, dawnsio gyda'r sêr.
Adeiladu roced a'i roi o mewn gêr.

Gwregys ymlaen, does dim troi nôl,
Ond cyn hedfan roced rhaid cyfri am yn ôl!

Am, am, am yn ôl! Am, am, am yn ôl!
Am, am, am yn ôl! Am, am, am yn ôl!
Gwregys ymlaen, does dim troi nôl
Ymunwch gyda fi a nawn ni gyfri am yn ôl



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

 **BookTrust Cymru**
Amser Rhigwm Mawr Cymru
Big Welsh Rhyme Time

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Dathliad Cymru gyfan BookTrust Cymru o ganeuon
a rhigymau ydy Amser Rhigwm Mawr Cymru.

Roced Roc a Rôl (Am yn ôl)

(10, 9, 8, 7, 6, 5, 4, 3, 2, 1)

Gwisgo fel gofodwr, rhoi fy helmed ymlaen,
Eistedd yn y gadair dechrau teimlo y straen.

Goleuadau'n fflachio a'r drysau yn cau
Popeth yn crynu a'r swm yn cryfhau.

Gwregys ymlaen, does dim troi nôl,
Ond cyn hedfan roced rhaid cyfri am yn ôl!

Am, am, am yn ôl! Am, am, am yn ôl!

Am, am, am yn ôl! Am, am, am yn ôl!

Gwregys ymlaen, does dim troi nôl
Ymunwch gyda fi a nawn ni gyfri am yn ôl



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

 **BookTrust Cymru**

Amser Rhigwm Mawr Cymru
Big Welsh Rhyme Time

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Dathliad Cymru gyfan BookTrust Cymru o ganeuon
a rhigymau ydy Amser Rhigwm Mawr Cymru.

Roced Roc a Rôl (Am yn ôl)

(10, 9, 8, 7, 6, 5, 4, 3, 2, 1)

Gwibio drwy'r awyr, drwy'r cymylau di-ri
Teithio gyda'n gilydd, jyst y roced a fi
Glanio ar y lleuad edrych nôl ar y byd
Dwi'n bell o fy nghartref, o fy ffrindiau i gyd.

Meddwl bo fi'n glyfar ond roeddwn i'n ffôl
Rhaid dringo mewn i'r roced a hedfan yn ôl!

Am, am, am yn ôl! Am, am, am yn ôl!
Am, am, am yn ôl! Am, am, am yn ôl!

(Mae'r roced wedi cyrraedd yn ôl. Diolch yn fawr i chi gyd am
helpu i gyfri am yn ôl. Dyna ni am y tro.
Rocio yn y roced, a siglo pen ôl!)

gan Iwan Garmon



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

 **BookTrust Cymru**
Amser Rhigwm Mawr Cymru
Big Welsh Rhyme Time